



# Gweithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2021



## Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Bu'n rhaid i weithwyr cymdeithasol gofrestru gyda ni ers 2005
- Mae 6,470 o weithwyr cymdeithasol wedi'u cofrestru, sef cynnydd o gymharu â 6,293 yn 2020
- Dywedodd 4,172 wrthym fod ganddynt lwyth achosion gwaith cymdeithasol
- I gefnogi'r sector yn ystod pandemig COVID, ni thynnom neb o'r Gofrestru am fethu adnewyddu'u cofrestrriad yn y flwyddyn ddiwethaf.



## Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae'r gymhareb gweithwyr cymdeithasol benywaidd a gwrywaidd yn 4:1 o hyd
- Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol ar y gofrestr wedi cynyddu 7% ers 2016
- Cynyddodd y ganran a gyflogir yn y sector preifat o 4.5% yn 2016 i 7.5%
- Cynyddodd y ganran sydd â Gradd Meistr neu Faglor mewn Gwaith Cymdeithasol o 36% yn 2016 i 52% eleni.



## Faint sydd wedi ymuno ac ymadael â'r Gofrestr?

- Yn y 12 mis diwethaf, ymunodd 454 o weithwyr cymdeithasol â'r Gofrestr a gadawodd 277
- Ni wnaeth 47% o'r ymadawyr hynny gynnal eu cofrestrriad
- Roedd 19% o'r ymadawyr wedi ymddeol
- Parhaodd 13% i weithio ym maes gofal cymdeithasol y tu allan i Gymru
- Tynnwyd 1 gweithiwr cymdeithasol o'r Gofrestr yn dilyn gwrandawriad addasrwydd i ymarfer ac roedd 3 wedi'u hatal dros dro yn bresennol.



## Pa gymwysterau sydd gan weithwyr cymdeithasol?

- Mae pob gweithiwr cymdeithasol ar y Gofrestr yn gymwysedig
- Mae gan 52% ohonynt Radd Baglor neu Feistr mewn Gwaith Cymdeithasol
- Mae gan 34% ohonynt Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol
- Mae gan 10% ohonynt gymhwyster gwaith cymdeithasol derbyniol hŷn
- Cymhwysodd 3% ohonynt y tu allan i'r DU.



## Ble caiff gweithwyr cymdeithasol eu cyflogi?

- Mae 73% ohonynt yn gweithio yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Mae 7.5% ohonynt yn gweithio yn y sector preifat
- Mae 4% ohonynt yn gweithio yn y trydydd sector
- Mae 4% ohonynt yn hunangyflogedig
- Mae 36% o weithwyr cymdeithasol wedi bod yn eu rôl bresennol am 3 blynedd neu lai
- Mae 13% ohonynt wedi bod yn eu rôl bresennol am 10 mlynedd neu fwy.



## Beth yw profil gweithwyr cymdeithasol?

- Mae 5,341 o fenywod a 1,129 o ddynion
- 46 yw oedran cyfartalog gweithwyr cymdeithasol
- Mae 88% o weithwyr cymdeithasol yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig
- Mae 40% o weithwyr cymdeithasol yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl
- Mae gan 3% o weithwyr cymdeithasol anabledd.